PRESS RELEASE

DATGANIAD I'R WASG

December 19, 2023

Cardiff Council implementing Woodland Trust nature recovery recommendations

Cardiff Council has welcomed a recently published Woodland Trust policy paper setting out the importance of trees and woods for nature recovery in Wales and making five key recommendations for local authorities.

Cabinet Member for Culture, Parks and Events, Cllr Jennifer Burke, said: "The rapid decline of nature in Wales and beyond in recent years is deeply concerning and since declaring a nature emergency in 2021, the Council has taken significant steps to support its recovery, and has already implemented, or begun to implement, all of the measures that the Woodland Trust recommend local authorities should take."

"At the heart of what we're doing is our ambitious urban forest project, Coed Caerdydd. Part of our strategic approach to tree and woodland management, the project aims to increase tree canopy coverage in Cardiff from 18.9% to 25% by 2030, by planting an area of roughly 839 hectares with mainly native species of trees.

"We're off to a fantastic start, with 50,000 trees planted on council and some privately-owned land over just two planting seasons – and that's down in no small part to the community volunteers who help us plant them, but who also help identify potential planting sites, help choose the trees, and provide additional support and care for the trees as they grow. With support from the Woodland Trust, we're also developing a Tree Nursery at Forest Farm where we are propagating native stock of local provenance, which can then be planted as part of the project.

"But our plans don't end there. We recently secured £1.3 million of funding for our Local Nature Partnership to help continue our programme of pollinator-friendly planting and create and restore wildlife habitats. In consultation with residents, and with input from our tree and ecology

officers, we're currently developing our Local Nature Action Recovery Plan which will set out a range of actions needed to help restore nature in Cardiff."

"Cardiff needs to grow in order to support new jobs and provide much-needed homes for people, but it's important that growth is managed in a sustainable way that supports nature. That's why, as part of our replacement Local Development Plan we're aiming to ensure that all development achieves a net gain in biodiversity, and protecting well in excess of 5,500 hectares of countryside and river valleys in the city from development."

"On top of that, we're training volunteers to identify ancient and veteran trees, to help increase understanding of the city's tree heritage and encourage their protection."

Director of Coed Cadw – the Woodland Trust, Natalie Buttriss, said: "We welcome the steps Cardiff Council are taking towards meeting our recommendations for investing in tree cover to deliver the interrelated goals of nature recovery and community wellbeing. We look forward to an integrated tree and woodland strategy for Cardiff, one that secures all the benefits that mature trees provide and increases tree cover especially in those parts of the city with a low tree equity score."

The Woodland Trust's recommendations for Local Authorities, are:

1. Declare a nature emergency in preparation for a Nature Positive Act and embed into the council's Tree and Woodland Strategy the actions needed to restore nature.
2. Employ a specialist ecologist and a tree officer to ensure that biodiversity is at the heart of all decision making.
3. Deliver more collaborative multi-landowner initiatives, especially in national parks and Areas of Outstanding Natural Beauty (AONBs): applying tree cover to help drive landscape-scale nature recovery and deliver the priorities identified in Area Statements.
4. In urban areas, protect woods and trees and associated semi-natural habitats, and support active conservation management through rigorous application of Planning Policy Wales and Natural Resources Wales (NRW) guidance to reduce pressure on nature.
5. Co-design and implement tree strategies with communities – building community understanding and resilience across all departments and delivering increased access to nature while supporting its recovery.

CARDIFF'S TREES AND WOODLANDS QUICK EXPLAINER

What we have done:

- Declared a nature emergency.
- Employed tree officers and an ecologist.
- Worked with communities to identify potential sites and tree types, for planting.
- Planted 50,000 new trees as part of our 'Coed Caerdydd' urban forest project with the help of community volunteers who also provide additional care for the trees as they grow.
- Established a new Tree Nursery at Forest Farm.
- Agreed to protect well in excess of 5,500 hectares of countryside and river valleys in the city from development as part the Preferred Strategy for our replacement Local Development Plan.
- Trained volunteers to identify ancient and veteran trees in Cardiff.

What we're aiming to do:

- Plant a further 30,000 trees this planting season.
- Increase tree canopy coverage in Cardiff from 18.9% to 25% by 2030, planting approximately 839 hectares of land with mainly native species of tree.
- Grow our own supply of local provenance native trees from seed, for planting in Cardiff.
- Ensure that all development achieves a net gain in biodiversity.
- Publish a Local Nature Action Recovery Plan that sets out the actions needed to support nature in Cardiff.

(ends)

Cardiff Council Media Advisor David Harris Tel: 029 2087 2409
Email: davidharris@cardiff.gov.uk

19 Rhagfyr, 2023

Cyngor Caerdydd yn gweithredu argymhellion adfer natur Coed Cadw

Mae Cyngor Caerdydd wedi croesawu papur polisi Coed Cadw a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n nodi pwysigrwydd coed a choedwigoedd ar gyfer adfer natur yng Nghymru ac sy'n gwneud pum argymhelliad allweddol ar gyfer awdurdodau lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Jennifer Burke, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau: "Mae'r dirywiad cyflym o ran natur yng Nghymru a'r tu hwnt yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn peri pryder mawr ac ers datgan argyfwng natur yn 2021, mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol i gefnogi ei adferiad, ac mae eisoes wedi gweithredu, neu wedi dechrau gweithredu, yr holl fesurau y mae'r Coed Cadw yn argymell y dylai awdurdodau lleol eu cymryd."

"Wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud yw ein prosiect coedwig drefol uchelgeisiol, Coed Caerdydd. Yn rhan o'n dull strategol o reoli coed a choetiroedd, nod y prosiect yw cynyddu gorchudd y canopi coed yng Nghaerdydd o 18.9% i 25% erbyn 2030, trwy blannu ardal o oddeutu 839 hectar gyda rhywogaethau brodorol o goed yn bennaf.

"Rydyn ni wedi cael dechrau gwych, gyda 50,000 o goed wedi'u plannu ar dir y cyngor a rhywfaint o dir preifat dros ddau dymor plannu yn unig – ac mae hynny i raddau helaeth oherwydd y gwirfoddolwyr cymunedol sy'n ein helpu i'w plannu, ond sydd hefyd yn helpu i nodi safleoedd plannu posibl, yn helpu i ddewis y coed, ac yn rhoi cymorth a gofal ychwanegol i'r coed wrth iddynt dyfu. Gyda chymorth Coed Cadw, rydym hefyd yn datblygu Planhigfa Goed yn Fferm y Fforest lle rydym yn lluosogi stoc frodorol o darddiad lleol, y gellir ei phlannu wedyn fel rhan o'r prosiect.

"Ond nid dyna ddiwedd ein cynlluniau. Yn ddiweddar, sicrhawyd £1.3 miliwn o gyllid ar gyfer ein Partneriaeth Natur Leol i helpu i barhau â'n rhaglen o blannu sy'n denu pryfed peillio a chreu ac adfer cynefinoedd bywyd gwyllt. Mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, a chyda mewnbwn gan ein swyddogion coed ac ecoleg, rydym wrthi'n datblygu ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol a fydd yn nodi ystod o gamau gweithredu sydd eu hangen i helpu i adfer natur yng Nghaerdydd."

"Mae angen i Gaerdydd dyfu er mwyn cefnogi swyddi newydd a darparu cartrefi mawr eu hangen i bobl, ond mae'n bwysig bod twf yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n cynnal natur. Dyna pam, fel rhan o'n Cynllun Datblygu Lleol newydd, mae gennym nod o sicrhau bod pob datblygiad yn cyflawni cynnydd net mewn bioamrywiaeth, ac yn diogelu ymhell dros 5,500 hectar o gefn gwlad a dyffrynnoedd afonydd yn y ddinas rhag cael eu datblygu."

"Ar ben hynny, rydym yn hyfforddi gwirfoddolwyr i nodi coed hynafol a hynod, i helpu i gynyddu dealltwriaeth o dreftadaeth coed y ddinas ac annog eu hamddiffyniad."

Dywedodd Cyfarwyddwr Coed Cadw, Natalie Buttriss: "Rydym yn croesawu'r camau y mae Cyngor Caerdydd yn eu cymryd tuag at gyflawni ein hargymhellion ar gyfer buddsoddi mewn gorchudd coed i gyflawni'r nodau cydberthnasol o adfer natur a lles cymunedol. Edrychwn ymlaen at strategaeth goed a choetiroedd integredig ar gyfer Caerdydd, un sy'n sicrhau'r holl fuddion y mae coed aeddfed yn eu darparu ac sy'n cynyddu gorchudd coed, yn enwedig yn y rhannau hynny o'r ddinas gyda sgôr ecwiti coed isel."

Argymhellion Coed Cadw ar gyfer Awdurdodau Lleol yw:

6. Datgan argyfwng natur wrth baratoi ar gyfer Deddf Natur Gadarnhaol ac ymgorffori yn Strategaeth Coed a Choetir y Cyngor y camau sydd eu hangen i adfer natur.
7. Cyflogi ecolegydd arbenigol a swyddog coed i sicrhau bod bioamrywiaeth wrth wraidd pob penderfyniad.
8. Darparu mwy o fentrau ar y cyd â sawl tirfeddiannwr, yn enwedig mewn parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau), gan ddefnyddio gorchudd coed i helpu i yrru adfer natur ar raddfa tirwedd a chyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd mewn Datganiadau Ardal.
9. Mewn ardaloedd trefol, gwarchod coed a choedwigoedd a chynefinoedd lled-naturiol cysylltiedig, a chefnogi dulliau rheoli cadwraeth gweithredol trwy gymhwyso canllawiau Polisi Cynllunio Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn drwyadl i leihau'r pwysau ar natur.
10. Cyd-ddylunio a gweithredu strategaethau coed gyda chymunedau – gan ddatblygu dealltwriaeth a gwydnwch cymunedol ar draws pob adran a darparu mwy o fynediad i fyd natur wrth gefnogi ymdrechion i'w adfer.

EGLURHAD CYFLYM O RAN COED A CHOETIROEDD CAERDYDD

Yr hyn rydym wedi'i wneud:

- Datgan argyfwng natur.
- Cyflogi swyddogion coed ac ecolegydd.
- Gweithio gyda chymunedau i nodi safleoedd posibl a mathau o goed, ar gyfer plannu.

- Plannu 50,000 o goed newydd fel rhan o'n prosiect coedwig drefol 'Coed Caerdydd' gyda chymorth gwirfoddolwyr cymunedol sydd hefyd yn darparu gofal ychwanegol ar gyfer y coed wrth iddynt dyfu.
- Sefydlu Planhigfa Goed newydd yn Fferm y Fforest.
- Cytuno i amddiffyn ymhell dros 5,500 hectar o gefn gwlad a dyffrynnoedd afonydd yn y ddinas rhag cael eu datblygu fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ein Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Hyfforddi gwirfoddolwyr i adnabod coed hynafol a hynod yng Nghaerdydd.

Ein nod:

- Plannu 30,000 o goed ychwanegol yn ystod y tymor plannu hwn.
- Cynyddu gorchudd y canopi coed yng Nghaerdydd o 18.9% i 25% erbyn 2030, trwy blannu ardal o oddeutu 839 hectar gyda rhywogaethau brodorol o goed yn bennaf.
- Tyfu ein cyflenwad ein hunain o goed brodorol lleol o hadau, i'w plannu yng Nghaerdydd.
- Sicrhau bod pob datblygiad yn cyflawni cynnydd net mewn bioamrywiaeth.
- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i gynnal natur yng Nghaerdydd.

(diwedd)

Ymgynghorydd y Cyfryngau Cyngor Caerdydd David Harris Rhif Ffôn: 029 2087 2409
E-bost: davidharris@caerdydd.gov.uk